# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 13-09)

**Dyddiad:** **18 Mai 2009**
**Amser:** **16.00**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

## CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 18 Mai 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, Joyce Watson AC a David Melding AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC. Diolchodd y Cadeirydd i Mark Isherwood AC am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor a chroesawodd David Melding AC (sy'n cymryd lle Mr Isherwood) i'r Pwyllgor.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn.:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC284 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd) (Diwygiadau Ynghylch Ffliw Pandemig) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 7 Mai 2009. Fe'u gosodwyd ar 7 Mai 2009. Yn dod i rym ar 8 Mai 2009

**Unrhyw fater arall**

**Y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)**
Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) a osodwyd ar 27 Ebrill 2009. Nododd yr Aelodau fod y Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau eang i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru. Penderfynodd y Pwyllgor graffu ar y Mesur drafft o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) ("pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ... sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru …" ) a gwahodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Gymdeithas y Gyfraith i ofyn am unrhyw sylwadau ar ddarpariaethau pwerau dirprwyedig y Mesur arfaethedig. Nododd yr Aelodau y bydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 yn derbyn tystiolaeth gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar 21 Mai 2009 a gofynnwyd a fyddai'n bosibl gweld copi o'r trawsgrifiad o'r cyfarfod hwnnw.

**Ystyried Mesurau Seneddol yn y dyfodol**

Ystyriodd yr Aelodau bapur ar y Mesurau presennol sydd gerbron Senedd y DU a pha mor addas ydyw i graffu ar y Mesurau Seneddol hyn mewn perthynas â rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru (o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) caiff y Pwyllgor ystyried “pa mor briodol yw darpariaethau ... mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru” a chyflwyno adroddiad ar hynny). Penderfynwyd y byddai’r Pwyllgor yn ystyried y Mesur Cydraddoldeb a’r Mesur Morol a Mynediad i’r Arfordir. Caiff y Mesur Dŵr a Llifogydd drafft ei ystyried yn dilyn hyn. Gofynnodd yr Aelodau i’r Cynghorwyr Cyfreithiol a’r Clercod i awgrymu’r amserlen ar gyfer craffu ar y Mesurau hyn.

**Eitem 5 ar yr agenda – Y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol): ystyried yr adroddiad drafft**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn ystyried adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**18 Mai 2009**